



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug
Aberfan
Merthyr Tydfil
CF48 4NT**

Dyddiad yr arolygiad: Mai 2011

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:
www.estyn.gov.uk

© Hawlfraint y Goron 2011: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Cyd-destun

Adleolwyd ysgol Gymraeg Rhyd y Grug ar ddechrau Medi 2010 o Fynwent y Crynwyr i Aberfan. Mae'r ysgol yn derbyn disgyblion o Fedlinog, Trelewis, Treharris, Mynwent y Crynwyr, Edwardsville, Merthyr Vale ac Aberfan. Ar hyn o bryd mae 121 o ddisgyblion o oedran ysgol orfodol yn yr ysgol a 30 disgybl tair a phedair oed. Mae'r rhif hyn yn llai na phan arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn 2005 ond rhagwelir bydd y niferoedd yn cynyddu yn y blynyddoedd nesaf. Caiff y disgyblion eu haddysgu gan chwe athro llawn amser ac un rhan amser mewn chwe dosbarth. Gwasanaethir yr ysgol gan Awdurdod Lleol Merthyr Tudful. Bydd pob disgybl yn trosglwyddo i ysgol Rhydywaun, sydd y tu allan i'r sir, ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae 17% o'r disgyblion yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Er bod hyn yn is na'r canran sirol a chenedlaethol mae mwyafrif y disgyblion yn dod o gartrefi sydd mewn ardal o anfantais economaidd ac yn dod o dan Cymunedau yn Gyntaf. Daw 85% o'r disgyblion o gartrefi lle mai Saesneg yw'r iaith gyntaf. Mae tri phlentyn yn dod o drais ethnig.

Derbynia 27% o'r disgyblion gymorth anghenion addysg ychwanegol. Nid oes yr un disgybl ar ddatganiad ac mae'r rhan fwyaf ar weithredu gan yr ysgol. Ni chofnodwyd unrhyw waharddiadau, dros dro na pharhaol, yn y flwyddyn cyn yr arolygiad. Mae nifer o newidiadau yn y staff ers yr arolygiad diwethaf gan gynnwys pennaeth a apwyntiwyd ar gyfer Medi 2010. Mae ychydig dros hanner y staff wedi'u hapwyntio ers 2005.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2010-2011 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymraeg Rhyd-Y-Grug yw £3,593 sy'n cymharu gydag uchafswm o £6,431 ac isafswm o £3,035 ar gyfer ysgolion cynradd ym Merthyr Tudful. Yr ysgol sydd â'r gyllideb fesul disgybl wythfed uchaf o'r 25 ysgol gynradd ym Merthyr Tudful.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Digonol
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn ddigonol oherwydd:

er bod:

- safonau yn yr holl fedrau, yn arbennig medrau cyfathrebu llafar, yn dangos cynnydd derbyniol o'u cymharu â chanlyniadau'r asesiadau gwreiddiol yn y Cyfnod Sylfaen;
- cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion mewn gwersi ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda ac yn gydnaws â'u gallu;
- canran y disgyblion sy'n cyflawni ar lefelau disgwylidig yn gyson uwch nag ysgolion tebyg ar ddiwedd cyfnod allweddol dau;
- disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da a disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth mewn iaith a lleferydd yn gwneud cynnydd da iawn;
- safon y gofal yn dda; a bod
- safon yr addysgu yn gyffredinol dda;

mae:

- safonau a medrau llythrennedd yn y Gymraeg yn anghyson yn enwedig yng nghyfnod allweddol un;
- safonau mathemateg a gwyddoniaeth yn wan mewn asesiadau athro ar ddiwedd cyfnod allweddol un;
- y ddarpariaeth ar gyfer ymestyn plant mwy galluog yn annigonol; ac mae
- gwahaniaeth sylweddol rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched gyda chyrhaeddiadau'r merched yn llawer uwch na'r bechgyn.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon ar gyfer gwella yn dda oherwydd:

- mae'r pennaeth newydd wedi rhoi cyfeiriad pendant a gweledigaeth glir i'r ysgol mewn cyfnod byr ac wedi rheoli newid yn effeithiol iawn;
- mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr ac yn cynnwys dadansoddiad manwl o ddata sy'n dangos fod yr ysgol yn adnabod ei hun yn dda;
- mae cynllun datblygu'r ysgol wedi clustnodi yn gywir anghenion yr ysgol o ran codi safonau ac wedi eu blaenoriaethu'n bwrpasol tros gyfnod o dair blynedd;
- bod prosesau rheolaethol clir ac ymarferol yn cael eu gweithredu yn gyson ar draws yr ysgol;
- bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n dda; a
- gwnaed cynnydd cyflym mewn meysydd pwysig fel ethos yr ysgol, cynllunio cwricwlwm ac ansawdd yr amgylchedd dysgu.

Argymhellion

Er mwyn gwella dylai'r ysgol:

- A1 godi safonau yng nghyfnod allweddol un yng ngwyddoniaeth a mathemateg a safonau darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg ar draws yr ysgol;
- A2 lleihau'r bwch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched;
- A3 godi cyraeddiadau'r disgyblion mwy galluog er mwyn iddynt gyrraedd eu llawn botensial;
- A4 sicrhau mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ysgrifennu'n estynedig;
- A5 datblygu rôl y corff llywodraethol ymhellach fel cyfaill beirniadol; ac
- A6 ymateb i faterion yn ymwneud ag iechyd a diogelwch a nodwyd yn y cyfarfod adborth ar ddiwedd yr arolygiad.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd y cynnydd yn erbyn yr argymhellion yn cael ei fonitro gan Estyn.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Digonol

Safonau: Digonol

Mae canlyniadau'r asesiadau sylfaen wrth i blant ddechrau yn yr ysgol yn gyson ddangos bod eu medrau is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae hyn yn arbennig o wir am eu medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu. Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen mae safonau yn yr holl fedrau, yn arbennig medrau cyfathrebu llafar, yn dangos cynnydd derbyniol o'u cymharu â chanlyniadau'r asesiadau gwreiddiol.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol un yn saith oed mae bron y rhan fwyaf yn medru cyfathrebu yn effeithiol yn y Gymraeg. Mae eu medrau llafar yn datblygu'n dda a gwnânt ddefnydd pwrpasol o'u medrau darllen ac ysgrifennu ar draws y cwricwlwm. Pan fydd y disgyblion yn gadael yr ysgol ar ddiwedd blwyddyn chwech mae y rhan fwyaf yn dangos cynnydd da ym mhob agwedd o'u medrau llythrennedd yn Saesneg, ond digonol yw eu cynnydd yn y Gymraeg. Defnyddiant iaith yn bwrpasol wrth drin a thrafod a llwyddant i ddarllen mewn un iaith gan ddefnyddio'r wybodaeth yn yr iaith arall. Mae mwyafrif yn darllen yn ysturlon ac yn dangos dealltwriaeth dda o'r testun yn Saesneg ond nid yw hyn mor gyson yn y Gymraeg. Mae safonau ysgrifennu yn gyffredinol yn dda yn y ddwy iaith erbyn diwedd blwyddyn chwech gyda'r gwaith wedi ei gyflwyno'n daclus.

Fodd bynnag nid yw safonau llythrennedd yn gyson ar draws yr ysgol. Mae amrediad a maint y gwaith yn amrywio a phrin yw'r enghreifftiau cyson o waith ysgrifennu ymestynnol.

Mae cyflawniad mewn dysgu a chynnydd y disgyblion mewn gwersi ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda ac yn gydnaws â'u gallu. Gall llawer o ddisgyblion alw i gof dysgu blaenorol i bwrpas gan lwyddo i adeiladu arno yn briodol. Yn gyffredinol mae disgyblion yn cydweithio yn dda ac yn ymateb yn briodol i'r tasgau a osodir ac i'r cwestiynau a holir gan yr athrawon. Erbyn diwedd blwyddyn chwech mae medrau meddwl a gallu'r disgyblion i weithio'n annibynnol wedi datblygu'n dda. Mae disgyblion yn defnyddio eu medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn hyderus ar draws yr ysgol ond nid yw medrau modelu o ran defnyddio taenlen a holi cronfa ddata wedi datblygu'n ddigonol.

Mae ymwybyddiaeth y disgyblion o artistiaid o Gymru a hanes eu hardal trwy'r Cwricwlwm Cymreig yn dda. Nid yw eu hymwybyddiaeth o awduron Cymreig gystal.

Yn 2010 llwyddodd 82% o ddisgyblion cyfnod allweddol un gyrraedd y lefel disgwylidig mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth a thrwy hynny gyflawni'r dangosydd pynciau craidd. Roedd y canran hwn yn uwch na chanlyniadau'r teulu o ysgolion mae'r ysgol yn perthyn iddi ac hefyd yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae'r canlyniadau hyn wedi bod yn uwch am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Serch hynny, o gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran cinio am ddim, mae'r canlyniadau ar gyfer y dangosydd pynciau craidd wedi dirywio'r ddwy flynedd ddiwethaf a bellach mae'r ysgol yn y 50% isaf o ran perfformiad. Mae mathemateg

hefyd wedi bod yn eithaf cyson yn y 50% isaf a gwyddoniaeth yn y 25% isaf tros bedair blynedd.

Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel tri, sef lefel yn uwch na'r disgwyl, mewn Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn sylweddol uwch na'r teulu a hynny yn eithaf cyson tros y tair blynedd ddiwethaf.

Mae canlyniadau cyfnod allweddol dau yn well na rhai cyfnod allweddol un. Yn 2010 llwyddodd 88% o ddisgyblion cyfnod allweddol dau i gyflawni'r dangosydd pynciau craidd. Roedd y canran hwn yn uwch na chanlyniadau'r teulu a Chymru ac mae wedi bod yn uwch am y pedair blynedd ddiwethaf. O gymharu ag ysgolion tebyg ar draws Cymru o ran cinio am ddim mae'r canlyniadau ar gyfer y dangosydd pynciau craidd yn gosod yr ysgol yn 25% uchaf o ran perfformiad am dair o'r pedair blynedd ddiwethaf. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyrraedd lefel pump, sef lefel yn uwch na'r disgwyl, ym mathemateg a gwyddoniaeth yn uwch na'r teulu. Serch hynny mae'r canran yn is na'r teulu a Chymru yn Saesneg ac yn gyson yn sylweddol is yn y Gymraeg.

Mae gwahaniaeth pendant mewn perfformiad rhwng y bechgyn a'r merched ym mhob pwnc yng nghyfnod allweddol un gyda'r bechgyn yn tanberfformio. Mae hyn yn arbennig o wir am wyddoniaeth a mathemateg lle mae'r sefyllfa yn gwaethygu o flwyddyn i flwyddyn. Nid oes yr un bachgen yn cyrraedd lefel tri mewn Cymraeg na gwyddoniaeth. Tebyg yw'r darlun yng nghyfnod allweddol dau gyda'r bechgyn yn tanberfformio yn Saesneg, Cymraeg a mathemateg.

Yn 2010 nid oedd fawr o wahaniaeth rhwng perfformiad disgyblion yng nghyfnod allweddol un sy'n cael cinio am ddim a'r rhai hynny nad ydynt. Yng nghyfnod allweddol dau nid yw'r darlun cystal oherwydd mae gwahaniaeth sylweddol rhwng perfformiad disgyblion sy'n cael prydau am ddim a'r rhai hynny nad ydynt. Mae'r bwlch rhyngddynt yn fwy na un y teulu a Chymru.

Y mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tra yn yr ysgol. Mae'r disgyblion sydd yn derbyn cefnogaeth mewn iaith, lleferydd, darllen a mathemateg yn gwneud cynnydd da iawn ac yn elwa'n sylweddol o'r ddarpariaeth ysgogol.

Mae canlyniadau ar gyfer y Gymraeg yn dda o ran cyrraedd y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol un ond nid yw hyn yn gyson ar draws y tair agwedd sy'n cael eu hasesu. Tra bod safonau llafar yn gyson uchel o gymharu â'r teulu nid yw hyn mor wir am ddarllen ac ysgrifennu. Mae canlyniadau cyfnod allweddol dau yn gyffredinol dda, yn dipyn mwy cyson ar draws y tair agwedd ac mae'r ysgol yn gyson uchel o fewn y teulu o ysgolion.

Lles: Da

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Rhyd y Grug yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ofynion a disgwyliadau bwyta'n iach a magu arferion personol iach. Mae disgyblion cyfnod allweddol dau yn elwa trwy gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau addysg gorfforol a ffitrwydd ar ôl ysgol. Caiff unigolion dawnus lwyddiant ar lefel sirol, cenedlaethol a Phrydeinig.

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yma a'r rhan fwyaf yn hapus iawn yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chynghor. Cwrteisi, cydweithio ac ymddygiad y disgyblion yw rhai o gryfderau'r ysgol. Mae datblygiad personol a chymdeithasol a diwylliannol yn gyffredinol dda.

Mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion wedi gwella'n gyson dros y pedair blynedd ddiwethaf. Bellach ar 94% mae'n uwch na chyfradd sir Merthyr ac yn debyg iawn i un Cymru. Mae prydlondeb y disgyblion yn gyffredinol dda.

Yn dilyn yr adleoli i bentref Aberfan o Fynwent y Crynwyr ddechrau'r flwyddyn addysgol hon mae'r ysgol a'r plant wedi dechrau chwarae rhan ym mywyd a gweithgareddau'r gymuned leol. Maent yn elwa o'r cyswllt gyda sefydliadau ac unigolion er mwyn atgyfnerthu eu gwybodaeth o hanes lleol, medrau cymdeithasol a medrau bywyd.

Drwy gyngor yr ysgol mae'r plant yn cael cyfleoedd da i fynegi barn, cymryd cyfrifoldeb a chymryd penderfyniadau. Mae hyn wedi arwain at wella'r ddarpariaeth ar eu cyfer yn yr ysgol. Cyfranna bron pob un o'r disgyblion hŷn tuag at fywyd pob dydd yr ysgol a chymryd at gyfrifoldebau yn dda. Mae swyddogion yr ysgol a'r 'bydis' yn gydwytbodol iawn wrth ofalu am y disgyblion iau amser cinio a helpu gyda datblygu medrau darllen disgyblion eraill.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?	Da
--	-----------

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol ar gyfer disgyblion o bob oed a gallu i ddiwallu anghenion disgyblion. Mae athrawon yn cydweithio yn fwriadus i gynllunio rhaglenni gwaith manwl, a thrwy gynnwys y disgyblion yn y cynllunio maent yn sicrhau profiadau dysgu diddorol a pherthnasol. Serch hynny, nid yw'r cynllunio yn adnabod yn ddigon cyson gyfleoedd i athrawon ddatblygu ysgrifennu estynedig nac i herio'r disgyblion mwy abl a dawnus.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau cyfathrebu yn dda ar draws yr ysgol.

Gwneir defnydd da o dargedu disgyblion sydd yn tangyflawni yn yr ysgol. Maent yn derbyn cymorth ychwanegol pwrpasol a phriodol er mwyn sicrhau cynnydd yn eu medrau rhifedd a chyfathrebu yn y ddwy iaith. Llwyddant i gynnwys y disgyblion yn effeithiol yn y gefnogaeth ddarllen trwy ddefnyddio 'Bydis' lle mae disgyblion hŷn yn cefnogi disgyblion blwyddyn tri a phedwar. Erbyn hyn mae'r ysgol yn targedu tanberfformio bechgyn a chodi safonau disgyblion drwy'r ysgol trwy nifer o weithgareddau pwrpasol. Nid yw'r cynlluniau trylwyr a baratowyd gan yr athrawon wedi cael amser digonol eto i gael effaith gadarnhaol ar safonau cyrhaeddiad y disgyblion ar draws yr ysgol.

Mae'r ysgol yn darparu'n briodol ar gyfer datblygu cynaliadwyedd a dinasyddiaeth fyd-eang ac wedi derbyn yr ail faner werdd yn ogystal â statws masnach deg.

Mae'r ddarpariaeth a'r cynllunio ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gyffredinol dda. Mae'r ysgol yn hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig yn llwyddiannus ar draws y pynciau.

Addysgu: Da

Mae'r rhan fwyaf o'r addysgu yn yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod disgyblion wedi'u cymell ac yn dangos diddordeb yn eu dysgu. Mae gan athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn defnyddio ystod eang o ddulliau a gweithgareddau i ysgogi 'r disgyblion.

Trwy feithrin ethos gofalgwr a chadarnhaol rheolir ymddygiad y plant yn dda iawn. Mae cydweithio effeithiol y staff addysgu a chynorthwyol yn cyfoethogi ac ychwanegu at y profiadau gwerthfawr o fewn y dosbarth.

Yn y gwersi lle mae'r addysgu gorau, anogir y disgyblion yn gyson i weithio'n annibynnol ac i gynhyrchu gwaith o safon da. Mae gan yr athrawon ddealltwriaeth drwyadl o'r cwricwlwm, maent yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn herio disgyblion yn effeithiol ac mae cyflymder da i bron bob un o'r gwersi. Mewn llawer iawn o'r gwersi mae'r athrawon yn gosod tasgau gwahaniaethol i gefnogi disgyblion gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r cwestiynu yn ddigon treiddgar na'r disgwyliadau o ran safon gwaith ysgrifenedig yn ddigon uchel mewn ychydig iawn o'r gwersi.

Mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol i ddatblygu dulliau asesu ar gyfer dysgu ac yn yr arfer orau mae'r marcio a'r sylwadau yn rhoi targedau clir i'r disgyblion ar gyfer gwella. Defnyddir deilliannau'r broses asesu er mwyn blaen gynllunio gweithgareddau o ddydd i ddydd yn effeithiol. Mae ansawdd asesu dysgu yn dda.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae Ysgol Rhyd y Grug yn gymdeithas glos, gynnes a chynhwysol sy'n cynnig gofal arbennig i'w disgyblion yn ddiwahân. Mae trefniadau addysg bersonol a chymdeithasol a'r system gwnsela yn cael eu defnyddio yn effeithiol iawn i gynorthwyo'r disgyblion i rannu problemau gyda'u cyfoedion ac oedolyn sydd wedi derbyn hyfforddiant pwrpasol. Mae hyn yn eu paratoi yn dda iawn ar gyfer bywyd y tu allan i'r ysgol yn y dyfodol ac yn gryfder penodol o ddarpariaeth ofalgwr yr ysgol. Cyfranna'r ddarpariaeth hon yn helaeth at sicrhau iechyd emosiynol a chorfforol y disgyblion.

Mae trefniadau clir a threfnus ar gyfer pob agwedd o fywyd yr ysgol ac o ganlyniad mae syniad da iawn gan y disgyblion o'r safonau uchel o ymddygiad a ddisgwylir. Caiff y disgyblion gyfleoedd da i gymryd rhan weithredol a phositif ym mywyd yr ysgol. Ar draws yr ysgol, mae profiadau dysgu yn cynnig cyfleoedd ysgogol i hyrwyddo datblygiad cymdeithasol, moesol, ysbrydol a diwylliannol i'r dysgwyr. Mae'r ysgol yn hyrwyddo bwyta iach a datblygu dulliau iachus o fyw yn dda.

Mae gan y darparwr bolisi a gweithdrefnau priodol ar gyfer diogelu. Serch hynny, tynnwyd sylw cadeirydd y corff llywodraethol a'r pennaeth at y ffaith nad yw'r trefniadau ar gyfer delio â materion iechyd a diogelwch ar safle'r ysgol newydd wedi cael eu datblygu'n llawn.

Sefydlwyd perthynas agos a buddiol gan yr ysgol â nifer o asiantaethau allanol sy'n gymorth effeithiol wrth gwrdd ag anghenion y disgyblion. Mae'r ysgol yn cefnogi ac

yn darparu yn dda ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol mewn dosbarthiadau prif ffrwd ac mewn grwpiau arbennig. Mae'r disgyblion ac anghenion dysgu ychwanegol yn cyfrannu at lunio targedau yn eu cynlluniau addysg unigol ac maent yn ymwybodol o'r hyn sydd angen arnynt i wella.

Yr amgylchedd dysgu: Da

Mae amgylchedd dysgu ysgogol iawn yn cael ei ddarparu ar gyfer y disgyblion a darpara'r ystafelloedd dosbarth ofod dysgu pwrpasol. Mae arddangosfeydd lliwgar yn y dosbarthiadau ac ar hyd y rhodfeydd helaeth yn dathlu gwaith da a llwyddiannau'r disgyblion ac yn hybu ymwybyddiaeth disgyblion o'r pwysigrwydd i werthfawrogi cefndiroedd amrywiol eraill. Mae'r ardal allanol yn helaeth ac fe'i defnyddir yn dda i gynnig profiadau dysgu addas ar gyfer plant y Cyfnod Sylfaen. Gwneir defnydd effeithiol o'r holl adnoddau, gan gynnwys yr ystafell gyfrifiadurol, i ddiwallu anghenion disgyblion ac i gyfoethogi'r Cwricwlwm. Caiff yr adeilad ei gynnal a'i gadw i safon uchel iawn a chyfranna'r gofalwr yn helaeth at y ddarpariaeth trwy greu adnoddau pwrpasol ar gyfer y dosbarthiadau.

Mae'r adeilad a'r cyfleusterau yn hael ar gyfer nifer y disgyblion ac yn bwrpasol ar gyfer y gweithgareddau a gynigir.

Mae ethos hapus a chyfeillgar iawn yn bodoli yn yr ysgol sy'n annog y plant i barchu eraill, eu trin yn deg a bod yn oddefgar. Mae gan bob disgybl hawl gyfartal i'r cwricwlwm ac mae'r disgyblion yn datgan trwy'r holiaduron eu bod yn cael eu trin yn gyfartal yn yr ysgol.

Mae disgyblion yn gwerthfawrogi cyfraniadau eraill ac yn cydweithio'n dda fel y gwnânt yn ystod cyfarfodydd y Cyngor Ysgol ac mewn gwersi medrau meddwl wrth ddwyn perswâd ar eraill wrth ddod i benderfyniad.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Ers penodiad y pennaeth ym mis Medi 2010 gwnaed cynnydd cyflym mewn byr amser ym meysydd pwysig a rheolwyd newid yn dda iawn. Llwyddodd y pennaeth i gyd weithio'n effeithiol â staff yr ysgol gan gynnwys yr uwch dim rheoli i greu ethos positif i'r ysgol ar ei safle newydd. O ganlyniad i hyn mae gwelliant yn y cynllunio strategol sydd nawr yn canolbwyntio'n briodol ar ddehongli data i godi safonau dysgwyr ac i wella ansawdd y ddarpariaeth a'r amgylchedd dysgu. Er nad yw'r holl weithgareddau wedi cael digon o amser i effeithio'n llawn ar safonau'r disgyblion ar draws yr ysgol mae sylfeini cadarn wedi eu gosod ar gyfer rhagolygon gwella'r dyfodol.

Mae'r llywodraethwyr wedi gorfod neilltuo llawer o'u hegri a'u sylw yn ystod y blynyddoedd diwethaf i sicrhau adeilad ar safle newydd sy'n addas ar gyfer addysg yn yr unfed ganrif ar hugain. O ganlyniad, er eu bod yn ymwybodol o feysydd cwricwlwm sydd angen gwella mae eu rôl fel cyfeillion beirniadol yr ysgol heb ddatblygu'n llawn.

Mae nifer o flaengareddau lleol a chenedlaethol yn datblygu'n dda. Mae'r ysgol yn datblygu'n briodol medrau dwyieithrwydd y disgyblion. Mae'r ysgol wedi ennill y faner werdd ar gyfer Ysgolion Eco ac mae'n ysgol masnach deg. Mae'r staff addysgu yn addasu'r cynllunio'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer mabwysiadu'r chwe maes dysgu'r Cyfnod Sylfaen i blant pump i saith mlwydd oed o fis Medi 2011. Maent hefyd yn gweithredu egwyddorion Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion trwy gyd weithio effeithiol a'u hysgol uwchradd ac ysgol gynradd Gymraeg mewn awdurdod cyfagos i rannu ac i elwa o'u harbenigedd ar y cyd.

Gwella ansawdd: Da

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn gynhwysfawr. Cynnwys dadansoddiad manwl o ddata a thystiolaeth berthnasol arall fel monitro ar gyfer adnabod cryfderau ac ardaloedd i'w datblygu o fewn yr ysgol. Cysylltwyd yr adroddiad hunan arfarnu yn briodol iawn â chynllun datblygu'r ysgol. Mae ffocws priodol yn y ddogfen cynllun datblygu'r ysgol ar godi safonau a gwella'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae gan yr ysgol gyfeiriad strategol clir ar gyfer gwelliant parhaus yn y cyfnod byr, canolig a hir dymor.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn briodol i'r argymhellion o fewn adroddiad yr arolygiad diwethaf.

Mae'r athrawon yn perthyn i nifer o rwydweithiau o arfer broffesiynol o fewn yr ysgol ac yn ehangach gydag ysgolion eraill y clwstwr. Dylanwada'r rhwydweithiau hyn yn bositif ar gynllunio, er enghraifft ar gyfer gwella medrau cyfathrebu'r disgyblion. Mae'r cofnod o gynnydd darllen unigol a grëwyd ar gyfer pob disgybl yn yr ysgol o ganlyniad cydweithio pwrpasol rhwng yr ysgol a'r ysgol uwchradd yn enghraifft nodedig o hyn.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Sefydlwyd nifer o bartneriaethau buddiol i gefnogi bywyd a gwaith yr ysgol. Mae'r partneriaethau da yma yn cynnwys rhai gyda'r rhieni, y gymuned leol, ysgolion cynradd eraill, yr ysgol uwchradd, gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol yn ogystal â nifer o asiantaethau eraill. Maent oll yn cyfrannu'n helaeth at gyfoethogi'r ddarpariaeth a gwella'r deilliannau er lles y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio yn agos ag ysgolion y dalgylch ac ysgol uwchradd Rhydywaun er mwyn lefelu enghreifftiau o waith disgyblion. Arweiniodd hyn at sicrhau cywirdeb a dibynadwyedd y lefelau a roddir i waith disgyblion yn asesiadau athrawon ar ddiwedd blwyddyn chwech.

Mae'r disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol gyda'u medrau cyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg yn elwa'n sylweddol o ddilyn rhaglenni penodol. Cefnogir yr ysgol yn dda yn y defnydd a'r monitro o'r rhaglenni hyn gan wasanaeth anghenion dysgu ychwanegol yr awdurdod lleol. Mae'r plant hyn yn gweithredu fel 'bydis' darllen i ddisgyblion sydd angen cymorth darllen ym mlwyddyn tri a phedwar. Derbyniant hyfforddiant pwrpasol gan asiantaeth sgiliau sylfaenol yr awdurdod lleol ar gyfer y cymorth ac achredir y gwaith gan y cydlynnydd sirol.

Rheoli adnoddau: Da

Mae adnoddau staffio'r ysgol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithlon i wella'r dysgu. Mae digon o staff addysgu a staff cynorthwyol profiadol i ymdrin â phob agwedd o waith yr ysgol. Mae'r athrawon a'r staff cynorthwyol yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau cefnogaeth briodol i'r disgyblion.

Gwna'r athrawon ddefnydd effeithlon o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon y cynllunio. Defnyddir arbenigeddau staff i gefnogi o fewn meysydd y cwricwlwm a chynnig hyfforddiant mewnol priodol.

Caiff adeilad yr ysgol ei gynnal i safon uchel ac mae ystod ac ansawdd yr adnoddau dysgu yn dda. Caiff adnoddau ariannol eu dyrannu'n briodol yn erbyn y blaenoriaethau y mae'r ysgol wedi eu hadnabod.

Mae'r ysgol yn cysylltu'n effeithiol ei hadnoddau ariannol i flaenoriaethau codi safonau a gwella'r ddarpariaeth trwy'r cynllun datblygu ysgol. O ganlyniad mae'r ysgol yn cynnig gwerth da am arian.

Atodiad 1

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd 24 o ymatebion i'r holiadur gan rieni ac roeddynt yn unfrydol:

- bod eu plant yn hoffi'r ysgol ac yn gwneud cynnydd da;
- bod eu plant yn ddiogel yn yr ysgol ac yn cael cymorth i ymgartrefu'n dda;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem; a
- bod yr ysgol yn helpu'r plant i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb a bod eu plant wedi eu paratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf.

Mae bron pob un yn credu bod:

- yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda ac yn fodlon â'r ysgol yn gyffredinol;
- yr addysgu'n dda a bod y staff yn disgwyl i'r plant weithio'n galed ac i wneud eu gorau;
- y gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn a ddysgir yn yr ysgol a'u bod yn cael gwybodaeth gyson am gynnydd eu plant;
- disgyblion yn ymddwyn yn dda; a
- amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau.

Mae y rhan fwyaf yn credu bod:

- staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch.

Mae ychydig yn credu nad:

- ydynt yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion; nac
- yn gwybod os yw eu plentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol.

Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Derbyniwyd 64 o ymatebion gan ddisgyblion Cyfnod Allweddol 2 ac roeddynt yn unfrydol:

- bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd.

Mae bron pob un yn:

- teimlo'n ddiogel yn yr ysgol a bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio; ac yn
- gwybod beth i'w wneud a gyda phwy i siarad os yn gweld y gwaith yn anodd neu yn poeni neu ofidio am rhywbeth.

Mae y rhan fwyaf yn credu bod:

- ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach; a
- bod ganddynt ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud eu gwaith.

Mae ychydig yn credu nad:

- ydynt yn gwneud yn dda yn yr ysgol ac nad yw'r gwaith cartref yn helpu iddynt ddeall a gwella eu gwaith yn yr ysgol;
- oes llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i gael ymarfer corff yn rheolaidd;
- yw plant eraill yn ymddwyn yn dda ac felly yn eu rhwystro rhag gweithio; ac nad
- yw pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio.

Atodiad 2

Y tîm arolygu

Maldwyn Pryse	Arolygydd Cofnodol
Jeff Jones	Arolygydd Tîm
Ruth Rhydderch	Arolygydd Lleyg
Meirwen Watts	Arolygydd Cymheiriaid
Alun Williams	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Ddeddf Addysg 2005, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad am ddim i gategorïau penodol o bobl. Gellir codi tâl nad yw'n fwy na chost atgynhyrchu ar bobl eraill sy'n gofyn am gopi o'r adroddiad. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (D) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	D	B1	B2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod allweddol 1	Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11